Cyngor Sir

CEREDIGION

County Council

Datganiad i'r Wasg

Press Release

Cyngor yn galw ar sefydliadau lleol, grwpiau cymunedol a busnesau bach i fynychu digwyddiadau gwybodaeth Dewis Cymru

Cynhelir cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol ledled Ceredigion i gefnogi sefydliadau lleol, gan gynnwys grwpiau cymunedol a busnesau bach, i uwch-lwytho eu manylion ar gyfarwyddiadur (directory) ar-lein Cymru gyfan. Unwaith iddo gael ei sefydlu, bydd trigolion Ceredigion yn gallu darganfod yr adnoddau helaeth sydd yn y sir.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi mabwysiadu Dewis Cymru fel eu cyfarwyddiadur dewisol i helpu sefydliadau lleol a grwpiau yng Ngheredigion i ddod o hyd i gynulleidfa newydd ar gyfer y digwyddiadau a chyfleoedd maent yn darparu. Gall unrhyw sefydliad uwch-lwytho eu manylion ar wefan Dewis Cymru, gan gynnwys elusennau, clybiau chwaraeon, grwpiau cymunedol a busnesau bach. Unwaith bod y wybodaeth ar y wefan, gall drigolion lleol chwilio ar y cyfarwyddiadur a dod o hyd i'r cyfleoedd yn eu hardal.

Gall hyd yn oed unigolion a'r grwpiau cymunedol lleiaf uwch-lwytho eu gwybodaeth ar Dewis Cymru i roi gwybod i drigolion Ceredigion am y cyfleoedd, adnoddau a gwasanaethau maent yn cynnig. Gobeithir y bydd Dewis Cymru yn cael ei ddefnyddio yn eang gan drigolion Ceredigion i ddod o hyd i'r cyfleoedd maent eisiau neu'r gwasanaethau maent ei angen.

Dywedodd Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion a'r Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros

Council calls on local organisations, community groups and small businesses to attend Dewis Cymru information events

A series of community engagement events will be held across Ceredigion to support any local organisation including community groups and small businesses to upload their details onto an online Wales-wide directory. Once established, Ceredigion residents will be able to find a wealth of resources and opportunities in the county.

Ceredigion County Council have adopted Dewis Cymru as their online directory of choice to help local organisations and groups in Ceredigion find a new audience for the events and opportunities they provide. Any organisations can upload their details onto the Dewis Cymru website, including charities, sport clubs, community groups and small businesses. Once on the website, local residents can search the directory and find the opportunities available in their area.

Even individuals and the smallest of community groups can upload their information onto Dewis Cymru to let Ceredigion residents know the opportunities, resources or services they offer. It is hoped that once established, Dewis Cymru will be widely used by Ceredigion residents to find the opportunities they want or the services they need.

Wasanaethau Corfforaethol, y Cynghorydd Ray Quant MBE, “Mae Dewis Cymru yn cynnig y cyfle i grwpiau a sefydliadau o bob math i ddod o hyd i’w cynulleidfa ac i gefnogi eu cymunedau. Os oes clwb ieuenctid yn cwrdd yn ystod yr wythnos; os oes capel yn cynnal bore coffi rheolaidd; os oes person yn rhedeg busnes bach yn y sir neu os oes grŵp o ffrindiau yn trefnu teithiau cerdded yn yr ardal, gallent adael i bobl wybod am y gwaith da maent yn gwneud yn y gymuned. Felly, mae modd iddynt ddod ar draws pobl sydd â diddordeb mewn mynychu neu i wneud defnydd o wasanaeth. Mae hwn yn gyfle go iawn i ddod â chymunedau a phobl debyg at ei gilydd.”

Cynhelir y digwyddiadau gwybodaeth ar Dewis Cymru yn:

- Llyfrgell Aberystwyth ar 9 Chwefror 1:00yp-5:00yp
- Llyfrgell Aberaeron ar 16 Chwefror 10:00yb – 5:00yp
- Neuadd Buddug, Llambed ar 23 Chwefror 10:00yb – 5:00yp
- Neuadd y Dref, Aberteifi ar 28 Chwefror 10:00yb – 5:00yp

Mae’r Cyngor yn hyfforddi staff i uwch-lwytho gwasanaethau’r Cyngor ar Dewis Cymru. Bydd Dewis Cymru yn chwarae rôl allweddol yn nhrawsnewidiad gofal cymdeithasol y Cyngor gan y bydd yn galluogi trigolion i helpu eu hunain trwy ddarganfod adnoddau sydd eisoes yn yr ardal y gall gefnogi lles pobl.

I ddysgu mwy am Dewis Cymru, ewch i’w gwefan ar www.dewis.cymru. Os hoffech wybod mwy am Dewis Cymru yng Ngheredigion a sut i uwch-lwytho gwybodaeth am eich grŵp, sefydliad neu fusnes, cysylltwch â ni ar 01545 570881 a gofyn am Cyra Shimell neu e-bostiwch Cyra.Shimell@ceredigion.gov.uk.

Ceredigion County Council Deputy Leader and Cabinet Member for Corporate Services, Councillor Ray Quant MBE said, “Dewis Cymru offers local groups and organisations of every kind the opportunity to find their audience and support their communities. If a youth club meets during the week; if a chapel holds a regular coffee morning; if a person runs a small business in the county or a group of friends arrange rambling or hiking trips in the area, they can get the word out about the good work that they do in the community. From that, they can find people who are interested in attending or making use of a service. This is a real opportunity to bring communities and like-minded people together.”

The information events about Dewis Cymru will be held in:

- Aberystwyth Library on 9 February 1:00pm – 5:00pm
- Aberaeron Library on 16 February 10:00am – 5:00pm
- Victoria Hall, Lampeter on 23 February 10:00am - 5:00pm
- Guildhall, Cardigan on 28 February 10:00am – 5:00pm

The Council itself is currently training staff to upload Council services onto Dewis Cymru. Dewis Cymru will play a key role in the Council’s social care transformation as it will help residents to help themselves through finding resources already in the area that can support people’s wellbeing.

To learn more about Dewis Cymru, visit their website on www.Dewis.Wales. If you would like to know more about Dewis Cymru in Ceredigion and how to upload information about your group, organisation, or business, contact us on 01545 570881 and ask for Cyra Shimell or email

---DIWEDD---

Cyra.Shimell@ceredigion.gov.uk.

Linc Ar-lein:
https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/newyddion/cyngor-yn-galw-ar-sefydliadau-lleol-grwpiau-cymunedol-a-busnesau-bach-i-fynychu-digwyddiadau-gwybodaeth-dewis-cymru/

---ENDS---

Online Link:
https://www.ceredigion.gov.uk/resident/news/council-calls-on-local-organisations-community-groups-and-small-businesses-to-attend-dewis-cymru-information-events/

Tîm Cyfathrebu

Cyngor Sir Ceredigion

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, Cymru SA46 0PA.

swyddfarwasg@ceredigion.gov.uk

01545 572003

www.ceredigion.gov.uk

www.discoverceredigion.gov.uk

Communications Team

Ceredigion County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, Wales SA46 0PA.

pressoffice@ceredigion.gov.uk

01545 572003

www.ceredigion.gov.uk

www.discoverceredigion.gov.uk